Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Ffairfach

**Heol Bethlehem**
**Ffairfach**
**Llandeilo**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA19 6SY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Ffairfach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Ffairfach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 95 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 80 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 17.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 15.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 28.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 12/06/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Ffairfach yn darparu amgylchedd hapus a gweithgar lle mae disgyblion yn dangos parch ac ymddygiad o'r safon uchaf. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol lle mae pob disgybl yn cael eu parchu a'u datblygu fel unigolion cyflawn a chyfrifol. Mae'r staff yn gofalu am iechyd a lles y disgyblion yn hynod lwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod eu teimladau ac i gael cymorth ynglŷn â'u dysgu a'u lles emosiynol, pe bai angen. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder.

Mae'r staff yn darparu cwricwlwm cyfoethog sy'n cynnwys llais y disgyblion yn rheolaidd. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyffrous a diddorol i ddisgyblion, sy'n eu datblygu'n ddysgwyr annibynnol o oedran ifanc yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r dosbarthiadau a'r ardal ehangach i ysgogi dysgu'r disgyblion, ac i gefnogi eu haddysg yn ystod sesiynau dysgu a chyfnodau egwyl yn hynod effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn gadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol naws Gymreig amlwg ac mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu yn Gymraeg yn ddigymell yn rheolaidd. Caiff y disgyblion brofiadau sy'n eu datblygu i fod yn ddinasyddion balch a gwybodus am eu hardal a'u hetifeddiaeth. Maent yn rhan annatod o'r pentref a'r gymuned ehangach.

Mae'r pennaeth, y pennaeth cynorthwyol a'r holl staff yn creu tîm effeithiol sy'n gweithio er budd y disgyblion. Maent yn cyfarfod yn aml gyda staff ysgolion eraill y ffederasiwn er mwyn rhannu arfer dda, dysgu o'i gilydd a manteisio i'r eithaf ar eu hadnoddau. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol ac yn ymwybodol o beth sydd angen ei wella, er nad yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon clir nac yn hawdd eu mesur yn effeithlon. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ei hadnabod yn dda. Mae'r aelodau'n wybodus iawn am nifer o agweddau pwysig yr ysgol, gan gynnwys y cyllid. O ganlyniad, maent yn cynnig cymorth a her berthnasol gan sicrhau gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod blaenoriaethau gwella'r ysgol yn glir ac yn fesuradwy

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau sy'n is neu'n debyg i'r hyn a ddisgwylir am eu hoedran. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau gwrando a siarad Cymraeg o oedran cynnar yn dda iawn. Maent yn mwynhau canu rhigymau sy'n cyfoethogi eu geirfa a chyflwyno patrymau cystrawennol sy'n berthnasol i themâu'r dosbarth. Trwy hyn, maent yn dod yn siaradwyr cynyddol hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigymell mewn gwersi ac amseroedd egwyl, gan gynnwys wrth weithio a chwarae gyda'u cyfoedion.

Mae bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus, gan ddod i adnabod sain a ffurf llythrennau o oedran ifanc. Maent yn defnyddio dulliau addas er mwyn rhoi cynnig ar ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn dechrau cymhwyso medrau darllen mewn cyd-destunau gwahanol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn parhau i ddatblygu eu medrau darllen yn briodol yn y ddwy iaith. Mae ychydig yn dechrau darllen gyda mynegiant sy'n ystyried y gwrandäwr wrth ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso medrau darllen yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn cywain gwybodaeth o'r we i ddysgu am wledydd gwahanol sy'n chwarae pêl-droed yn nhwrnamaint Cwpan y Byd.

Mae'r disgyblion ieuangaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn dda. Mae bron bob un yn cychwyn arbrofi wrth wneud marciau, ac mae llawer yn dechrau ysgrifennu i bwrpasau gwahanol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu'n gadarn erbyn diwedd Blwyddyn 2. Maent yn ysgrifennu'n gynyddol gywir, gan sillafu geiriau cyfarwydd a dechrau atalnodi'n briodol, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i bobi bara. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn adnabod nodweddion ffurfiau ysgrifennu gwahanol ac yn eu hefelychu yn eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn cyfoethogi eu gwaith er mwyn ysgrifennu'n gynyddol fedrus gan ystyried gofynion y darllenwr. Er enghraifft, maent yn disgrifio stori'r Pasg yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen sy'n ddarllenadwy, gyda llawer yn cyflwyno eu gwaith yn daclus a threfnus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod rhifau a siapiau ac yn datblygu dealltwriaeth o fesur yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol yn eu gweithgareddau y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Er enghraifft, maent yn defnyddio tabl rhicbren yn gywir er mwyn cofnodi mathau o sbwriel maent wedi eu casglu, ac adnabod tymheredd ar thermomedr wrth astudio'r tywydd. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer yn gwneud defnydd addas o'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cyfrifo taith bwydydd gwahanol sy'n cyrraedd Cymru wrth ystyried newid hinsawdd, ac yn defnyddio diagram Venn yn fedrus i gymharu byd 'dewiniaid' â'r byd go iawn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cadarn. O oedran ifanc, mae llawer yn mewngofnodi i'w cyfrifon Hwb yn annibynnol. Maent yn darganfod gwybodaeth am Aneurin Bevan ar y we yn fedrus fel rhan o'u gwaith ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Maent yn defnyddio pecyn celf digidol yn annibynnol, er enghraifft wrth dynnu llun cymeriadau o'u llyfrau darllen. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio pecynnau dylunio yn greadigol i greu cardiau Santes Dwynwen gan ychwanegu lluniau a thestun priodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuangaf yn argraffu patrymau lliwgar gydag afalau, ac yn peintio pili pala yn grefftus. Mae'r disgyblion hynaf yn creu posteri deniadol i hybu gwaith elusen ryngwladol. Mae llawer yn cymhwyso medrau creadigol yn fedrus wrth gydweithio â'u cyfoedion yn ysgolion eraill y ffederasiwn a'r clwstwr. Er enghraifft, maent yn canu, llefaru a dawnsio mewn perfformiad aml-gyfrwng i gyfleu chwedl Llyn Y Fan Fach.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau corfforol cadarn gan fanteisio'n llawn ar amrywiaeth o gyfleoedd i gadw'n heini yn ystod amseroedd hamdden. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus wrth chwarae gydag offer palu yn yr ardal dywod, neu wrth adeiladu nyth ar gyfer pryf y lludw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn gyson wrth chwarae hoci, ac wrth reoli beiciau dwy a thair olwyn yn fedrus.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ddysgu gefnogol a chynhwysol. Maent yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus a chreadigol. Mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn feddylgar. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion hynaf yn gofalu'n aeddfed am y disgyblion ieuengaf drwy gyd-chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae gan bron bob disgybl agweddau cadarn at gadw'n iach. Maent yn dangos boddhad wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gan gynnwys arwain sesiynau cynhesu mewn gwersi addysg gorfforol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar-lein, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau bwriadus yn ystod wythnos diogelwch y we, ac wrth dderbyn cyngor gan yr heddwas lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus. Er enghraifft, maent yn canu a gwneud gweithgareddau ar y cyd â phreswylwyr hŷn mewn cartref penodol yn y gymuned leol. Mae ganddynt synnwyr cryf o degwch a chydraddoldeb, ac mae sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd cyfartal yn bwysig iawn i ddisgyblion yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio â beirdd ac artistiaid lleol ac yn perfformio'n rheolaidd i aelodau'r gymuned leol, er enghraifft yn ystod gŵyl lenyddiaeth.

Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor ysgol yn ymwneud â'u cyfrifoldebau yn frwdfrydig. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd a gwaith yr ysgol ac yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ailgylchu, arbed ynni a lleihau gwastraff dŵr o fewn yr ysgol trwy rannu gwybodaeth ddefnyddiol â'u cyfoedion. Yn ogystal, mae'r cyngor yn hynod falch o'r sioe dalent a drefnwyd ganddynt er mwyn codi arian at elusen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r staff ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae bron bob disgybl yn cydweithio'n effeithiol â'u ffrindiau ac oedolion, gan gynnig cymorth i'w gilydd o'u gwirfodd.

Mae medrau dysgu annibynnol y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio'r ardaloedd dysgu y tu fewn a thu allan yn hynod effeithiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig wrth iddynt gymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn dysgu ac yn rhannu gwybodaeth am bwysigrwydd cadw'n iach drwy berfformio sgets i'r disgyblion ieuengaf. Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn dangos cymhelliant cryf a diddordeb cynhenid yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn hyderus gyda staff a chyfoedion. Maent yn ymateb yn briodol i'r adborth o fewn gwersi, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn mae angen iddynt ei wella yn eu gwaith. Yn yr arferion gorau, maent yn dechrau datblygu eu gwaith yn sgil adborth pwrpasol gan oedolion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr berthynas waith gynhyrchiol â'r disgyblion. Mae'r staff yn trin y disgyblion yn gyfartal a gyda pharch sy'n ychwanegu at yr ethos gofalgar drwy'r ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel sy'n creu amgylchedd dysgu effeithiol yn y dosbarthiadau a'r ardaloedd tu allan. O ganlyniad mae'r ardaloedd dysgu yn fannau pwrpasol ble mae disgyblion yn ymgolli'n llwyddiannus yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn cyflwyno gweithgareddau gyda chyflwyniadau ysgogol a bywiog. Maent yn cyfathrebu â'r disgyblion gan ddefnyddio Cymraeg cywir, sydd yn ei dro yn cyfoethogi iaith y disgyblion yn effeithiol. Maent yn holi'n grefftus i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion adalw gwybodaeth o weithgareddau blaenorol. Trwy hyn, mae staff yn cefnogi'r disgyblion i symud y dysgu yn ei flaen yn fwriadus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n darparu her briodol ar gyfer disgyblion. Maent yn cynllunio cyfleoedd parhaus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau i fod yn ddysgwyr annibynnol, gan gynnwys rhoi cyfleoedd iddynt fyfyrio ar eu gwaith. Mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd buddiol i ymchwilio ymhellach i'w gwaith thema yn gynyddol annibynnol.

Mae staff yn hyrwyddo egwyddorion y dysgu sylfaen yn dda. Mae athrawon yn cynllunio ystod hynod effeithiol o weithgareddau cyfoethog sy'n cefnogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau dysgu yn yr ardaloedd dysgu allanol, er enghraifft drwy ddefnyddio dŵr a mop i adnabod llythrennau. Mae'r staff yn sicrhau defnydd da iawn o'r ardaloedd allanol yn ystod amseroedd egwyl drwy ddarparu adnoddau priodol, fel tafolau mawr yn yr ardal dywod, beiciau dwy a thair olwyn ac offer adeiladu pwrpasol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion wneud dewisiadau am y gweithgareddau yr hoffent eu cwblhau, er enghraifft drwy gyd-gynllunio ar ddogfen digidol i gynnig syniadau am eu themâu. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu brwdfrydedd tuag at eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n gynhwysol ac yn cael ei addasu'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bob disgybl. At ei gilydd, mae'r staff yn darparu amrediad cynhwysfawr o weithgareddau sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion yn fuddiol. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol drwy gydweithio ag artistiaid lleol, er enghraifft, ac wrth ddatblygu eu medrau perfformio a chystadlu mewn eisteddfodau. Darperir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol, er enghraifft wrth greu logo i hysbysebu gwerthiant wyau ieir yr ysgol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cynnig adborth llafar buddiol yn ystod gwersi. Mae'r staff yn cynnig anogaeth gyson wrth i'r disgyblion weithio ar eu gweithgareddau. Mae hyn o gymorth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus yn y fan a'r lle. Yn yr arferion gorau, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn cynorthwyo'r disgyblion i wella eu gwaith. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymateb i'r adborth hwn.

Mae athrawon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion yn gyson, er enghraifft trwy wahodd rhieni i ddigwyddiadau 'Dewch i Ddathlu'. Yn y nosweithiau hyn, mae'r disgyblion yn rhannu a dathlu eu gwaith â'u rhieni, tra bod yr athrawon ar gael i drafod unrhyw faterion penodol.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion gydag ystod o ymwelwyr ac ymweliadau. Er enghraifft, mae nyrs yn ymweld â'r dosbarthiadau i drafod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a grŵp cymunedol yn cyflwyno straeon o'r Beibl yn rheolaidd. Mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd buddiol i fynd i Wersyll yr Urdd mewn ymweliad ar y cyd â'u cyfoedion o ysgolion eraill y ffederasiwn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu perthnasoedd a chysylltiadau cadarn, yn enwedig wrth baratoi i drosglwyddo i addysg uwchradd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Ffairfach yn gymuned gyfeillgar a chroesawgar sy'n hyrwyddo hapusrwydd, cwrteisi ac ymddygiad da. Mae'r ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at

bob disgybl yn gryfder. Mae’r staff yn creu amgylchedd dysgu eithriadol o gynhwysol a diogel lle mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n dda i hyrwyddo a datblygu lles disgyblion. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau eu bod yn mynd i’r afael ag anghenion pob disgybl. Mae trefniadau cadarn a hynod effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Mae’r staff yn meithrin perthynas gadarn â’r disgyblion, sy’n hyrwyddo agweddau buddiol at eu lles. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac amserol i ddisgyblion gofnodi unrhyw gonsyrn yn ddyddiol.

Mae darpariaeth hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag ADY. Mae gan y cydlynydd ADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad i gynllunio medrus y ddarpariaeth, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth sy’n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus. Mae gan staff drefniadau bwriadus ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ADY sy’n ymwneud â’u targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol, a’u cynnydd o’u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol â’u dysgu neu eu lles yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r cynorthwywyr, staff ysgolion eraill, ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr. Mae'r ysgol yn paratoi'n dda ar gyfer cynllunio a gweithredu bwriadus fel rhan o’r broses ddiwygio darpariaeth ADY.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddathlu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u hunaniaeth, eu treftadaeth a’u diwylliant. Mae’r ysgol yn ganolbwynt ei chymuned ac yn manteisio’n llawn ar gyfleoedd i gynnal gweithgareddau yn yr ardal leol, er enghraifft drwy greu campweithiau pwrpasol a’u harddangos yn y feddygfa leol fel rhan o brosiect Eisteddfod yr Urdd. Yn ogystal, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau lleol, er enghraifft drwy gydweithio â beirdd ac artistiaid lleol i greu perfformiad o chwedl leol, ‘Y Robin Ddu’. Er hynny, prin yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth fwriadus am amrywiaeth a chymunedau amlddiwylliannol yn ehangach.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta’n iach ac yn annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy’n cynnwys cyfleoedd addas iddynt gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon. Mae'r staff yn gwneud defnydd cyson o’r meysydd chwarae lleol i drefnu a darparu ystod o weithgareddau sy’n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion yn eu dysgu. Mae’r ardaloedd chwarae awyr agored ar yr iard yn ddeniadol ac yn hybu’r disgyblion i ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl yn llwyddiannus.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi disgyblion i ddysgu am faterion sy’n ymwneud â chredoau amrywiol, yn ogystal â myfyrio ar gwestiynau sylfaenol a’u gwerthoedd eu hunain. Cynhelir gwasanaethau rhithiol cyson ar y cyd rhwng ysgolion y ffederasiwn a darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt. Mae hawliau plant yn rhan gyson o’r gwasanaethau. O ganlyniad, mae dealltwriaeth disgyblion o’u hawliau yn datblygu’n dda.

Mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio barn er mwyn cyfrannu at eu dysgu ac at fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi’n

dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau, ac i ystyried safbwyntiau eraill. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn am eu dysgu drwy gynllunio ar gyfer themâu’r dosbarth. Mae staff yn sicrhau bod y cyngor ysgol yn dylanwadu’n ehangach at fywyd yr ysgol drwy holi eu barn am ddatblygu ardaloedd tawel ar yr iard a thrwy fod yn rhan ragweithiol wrth ddatblygu toiledau’r disgyblion.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw’r trefniadau’n peri pryder. Mae trefn ar gyfer adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae’'r staff yn gwneud cyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer y ffederasiwn, sy’n cynnwys dathlu hunaniaeth y tair ysgol unigol. Mae’r disgyblion, rhieni, staff a’r llywodraethwyr yn gwerthfawrogi manteision bod yn rhan o ffederasiwn, ond hefyd maent yn ymfalchïo yn eu cymunedau gwahanol a’r hyn sy’n gwneud y tair ysgol yn unigryw. Mae’r pennaeth a’r holl staff yn sicrhau bod disgyblion ar draws y ffederasiwn yn cael yr addysg orau i’w paratoi ar gyfer y dyfodol, a bod ganddynt ‘wreiddiau i dyfu ac adenydd i hedfan’. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i fod yn hapus a gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Caiff y pennaeth ei chefnogi gan benaethiaid cynorthwyol brwdfrydig a gweithgar y tair ysgol. Mae ganddynt amcanion strategol clir, a gyda’i gilydd, maent yn gwneud yn siŵr fod trefniadau a rheolaeth yr ysgolion yn cyd-blethu er mwyn dysgu o’i gilydd a rhannu adnoddau yn effeithiol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o’i pherfformiad ei hun ac o’r staff. Mae hi’n dyrannu cyfrifoldebau’n strategol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ailstrwythuro’r grwpiau cwricwlwm yn dilyn archwiliad o fedrau’r staff. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn datblygu’r elfen o waith tîm ymysg staff yn effeithiol. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn ymroddgar ac yn cyfrannu’n llwyddiannus at ymdrechion y ffederasiwn cyfan i ddarparu addysg gyflawn a chefnogaeth lles effeithiol i’r disgyblion.

Mae’r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i dair ysgol y ffederasiwn ac yn adnabod eu rhinweddau unigryw a’u cymunedau lleol yn dda. Mae’r llywodraethwyr yn cylchdroi lleoliad eu cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod yr aelodau i gyd yn dod i adnabod a deall anghenion y tri safle yn dda. Maent yn ymweld â’r ysgolion yn rheolaidd ac yn cynnal trafodaethau buddiol â’r staff am elfennau o’r ddarpariaeth. Mae hyn yn dechrau cefnogi eu dealltwriaeth o faterion addysgu a dysgu, a threfniadau cyfredol yr ysgolion, yn briodol. Mae’r corff llywodraethol yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gyda’r disgyblion yn gyson. Maent yn gwneud defnydd da o’r ystod o arbenigeddau a phrofiadau sydd gan aelodau’r corff llywodraethol. Er enghraifft, mae aelodau o’r pwyllgor iechyd a diogelwch wedi cydweithio’n agos â’r awdurdod lleol i ddarparu safle bws yn agosach i fynediad yr ysgol er mwyn cryfhau prosesau diogelu’r ysgol.

Mae’r pennaeth, mewn cyswllt agos ag is-bwyllgor cyllid y llywodraethwyr, yn rheoli’r gyllideb yn gadarn ar draws y ffederasiwn i gefnogi’r blaenoriaethau strategol, gan gynnwys gwella medrau disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan Ysgol

Ffairfach ddigon o adnoddau o ansawdd da er mwyn diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol. Mae’r staff yn rhannu adnoddau yn effeithiol ar draws y ffederasiwn pan fydd angen er mwyn sicrhau gwerth am arian, er enghraifft offer digidol arbenigol. Maent yn cefnogi disgyblion penodol yn llwyddiannus er mwyn lleihau effaith tlodi ar eu dysgu drwy ddefnyddio’r grant datblygu disgyblion yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr amserlen lawn ar gyfer gwerthuso’r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Maent yn sicrhau bod athrawon yn dod at ei gilydd yn rheolaidd i graffu ar lyfrau disgyblion y ffederasiwn ac i drafod yr arfer orau. Maent yn ystyried tystiolaeth sy’n dangos cynnydd yr ysgolion yn erbyn blaenoriaethau’r ffederasiwn cyfan. Mae arweinwyr yn cynnal teithiau dysgu rheolaidd ac maent yn arsylwi’r addysgu a’r dysgu gan gynnig adborth defnyddiol i gadarnhau cryfderau a chynnig camau ymlaen. Maent yn adnabod y rhan fwyaf o gryfderau’r ffederasiwn a’i feysydd i’w datblygu yn gywir ac yn nodi nifer helaeth o flaenoriaethau i’w gweithredu. Fodd bynnag, nid yw’r blaenoriaethau bob amser yn ddigon manwl nac yn hawdd eu mesur yn effeithlon.

Mae arweinwyr yn ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Mae staff y ffederasiwn yn cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru yn briodol ac yn paratoi’n drwyadl ar gyfer gweithredu’r ddeddf ADY trwy sicrhau'r gefnogaeth briodol i’r disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau a chysylltiadau buddiol â nifer o sefydliadau lleol. Er enghraifft, mae gan staff berthynas gref â’r Cylch Meithrin sydd wedi ei leoli ar yr un safle. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at ddarparu profiad gwerthfawr wrth i’r disgyblion drosglwyddo i’r ysgol.

Mae’r arweinwyr yn creu diwylliant cadarnhaol o hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae cyfleoedd eang iddynt fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy’n cysylltu’n uniongyrchol â’u hanghenion unigol a blaenoriaethau’r ffederasiwn. Maent yn cydweithio’n agos â’i gilydd a gydag ysgolion eraill y dalgylch er mwyn rhannu arferion da yn gyson. Yn dilyn hyfforddiant, mae staff yn rhaeadru’r wybodaeth a’r adnoddau defnyddiol i gydweithwyr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   14/08/2023